Adnabod Awdur

# LUNED AARON

'Dwi'n cofio'n glir y mwynhad y byddwn i'n ei gael yn creu yn atig fy rhieni ers talwm. Yno mi fyddwn i'n ymroi i wneud llyfrau bach tenau gyda geiriau a lluniau, a hynny i gyfeiliant adar y to ar ddyddiau braf, a'r glaw yn drybowndian ar y llechi ar nosweithiau gaeafol. Bellach, dwi'n gwneud gwaith digon tebyg yn fy atig fy hun, ac mae'r teimlad rhydd yna o gael gofod i greu yn parhau. Mi fyddai un o fy athrawon, Mrs Gwenda Edwards, yn fy annog i 'ddarllen' y llyfrau bach ro'n i'n eu creu i weddill y dosbarth pan oeddwn i tua chwech oed, ac roedd anogaeth mor gynnar â hynny yn bwysig.

Mi es i ati i greu *ABC Byd Natur* gan fy mod i'n gweld, yn sgil fy mhrofiad fel mam, fod cyfeirio at agweddau ar y byd naturiol yn ffordd ddigon effeithiol o gyflwyno'r wyddor i blant bach. Ro'n i'n awyddus i greu cyfrol synhwyrus a lliwgar, ac ro'n i'n gweld y byddai creu llyfr a fyddai'n cyflwyno agweddau ar y byd naturiol yn gweddu i'm harddull arlunio sy'n cynnwys tipyn o arbrofi gyda phaent a dulliau *collage*.

Mae'r rhan fwyaf o'r delweddau sydd yn y llyfr yn rhai digon cyfarwydd i blant Cymru, ac mae plant yn sylwi ac yn rhyfeddu dipyn mwy nag y byddwn ni'r oedolion ym mhresenoldeb byd natur, wrth gwrs. Efallai fod ein synhwyrau ni, gydag amser, yn cael eu pylu ryw gymaint. Mewn ffordd, ymgais fach ar fy rhan i ydi'r gyfrol i annog plant ac oedolion i gydfwynhau rhai o'r agweddau hyfryd sydd o'n hamgylch bob dydd. Dwi'n sicr wedi mwynhau'r broses o greu.'






CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL
gwales.com
LLYFRAU AR-LEIN BOOKS ONLINE
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government




Adnabod Awdur
LUNED AARON
'Dwi'n cofio'n glir y mwynhad y byddwn i'n ei gael yn creu yn atig fy rhieni ers talwm. Yno mi fyddwn i'n ymroi i wneud llyfrau bach tenau gyda geiriau a lluniau, a hynny i gyfeiliant adar y to ar ddyddiau braf, a'r glaw yn drybowndian ar y llechi ar nosweithiau gaeafol. Bellach, dwi'n gwneud gwaith digon tebyg yn fy atig fy hun, ac mae'r teimlad rhydd yna o gael gofod i greu yn parhau. Mi fyddai un o fy athrawon, Mrs Gwenda Edwards, yn fy annog i 'ddarllen' y llyfrau bach ro'n i'n eu creu i weddill y dosbarth pan oeddwn i tua chwech oed, ac roedd anogaeth mor gynnar â hynny yn bwysig.
Mi es i ati i greu *ABC Byd Natur* gan fy mod i'n gweld, yn sgil fy mhrofiad fel mam, fod cyfeirio at agweddau ar y byd naturiol yn ffordd ddigon effeithiol o gyflwyno'r wyddor i blant bach. Ro'n i'n awyddus i greu cyfrol synhwyrus a lliwgar, ac ro'n i'n gweld y byddai creu llyfr a fyddai'n cyflwyno agweddau ar y byd naturiol yn gweddu i'm harddull arlunio sy'n cynnwys tipyn o arbrofi gyda phaent a dulliau *collage*.
Mae'r rhan fwyaf o'r delweddau sydd yn y llyfr yn rhai digon cyfarwydd i blant Cymru, ac mae plant yn sylwi ac yn rhyfeddu dipyn mwy nag y byddwn ni'r oedolion ym mhresenoldeb byd natur, wrth gwrs. Efallai fod ein synhwyrau ni, gydag amser, yn cael eu pylu ryw gymaint. Mewn ffordd, ymgais fach ar fy rhan i ydi'r gyfrol i annog plant ac oedolion i gydfwynhau rhai o'r agweddau hyfryd sydd o'n hamgylch bob dydd. Dwi'n sicr wedi mwynhau'r broses o greu.'
2017
CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL
gwales.com
LLYFRAU AR-LEIN BOOKS ONLINE
Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Ym Mangor.

**Ble cawsoch chi eich addysg?**
Ysgol Gynradd y Garnedd ac yna Ysgol Uwchradd Tryfan. Gradd mewn Astudiaethau Theatr ym Mhrifysgol Aberystwyth cyn astudio yn y Coleg Ffilm Ewropeaidd yn Nenmarc am flwyddyn. Yn nes ymlaen, dyna ddilyn fy niddordeb yn y trywydd gweledol trwy gwblhau gradd Meistr mewn Cynllunio ar gyfer Perfformio yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Roedd dyddiau'r ysgol yn rhai hapus lle'r oedd creadigrwydd yn cael ei annog. Ro'n i wrth fy modd yn cystadlu mewn eisteddfodau gyda gwaith grŵp, ysgrifennu neu gelf a chrefft yn enwedig. Doedd gorfod dysgu Mathemateg a'r Gwyddorau ddim wrth fodd fy nghalon!

**Pa lyfr oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Anodd dewis. Ro'n i'n hoff o ymroi i gyfresi gan awduron fel Judy Blume, Gwenno Hywyn ac Enid Blyton.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Mae byd natur yn ysgogiad cyson, yn ogystal â sylwi ar ddatblygiad ein dwy ferch fach, Eos ac Olwen.


**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Eto, mae byd natur yn wir sbardun creadigol. Dwi'n sylwi y bydd syniadau yn aml yn dod pan fydda i ar gefn fy meic. Stopio wedyn sydd raid i nodi'r syniadau, cyn i mi eu hanghofio!

**Oes gennych chi gyngor i rywun sydd eisiau cyhoeddi llyfr?**
Dilynwch eich diddordeb a'ch diléit wrth greu'r gwaith. Pan ddaw syniadau, mae'n werth eu nodi yn o handi cyn iddyn nhw fynd yn angof.

**Oes gennych chi un peth rydych yn ei drysori'n fwy na dim arall?**
Ffotograffau o deulu a ffrindiau ar hyd y blynyddoedd.

**Sut deimlad oedd clywed eich bod wedi ennill Gwobr Tir na n-Og?**
Ro'n i wrth fy modd! Mae ennill Gwobr Tir na n-Og yn gymaint o anrhydedd ac yn hwb aruthrol i mi'n greadigol. Gan mai dyma fy llyfr cyntaf i blant, mae'n gadarnhad fy mod i ar y trywydd iawn wrth greu'r math yma o gyfrolau. Hoffwn ddal ar y cyfle i ddiolch i fy nheulu am eu holl gefnogaeth, ac i Wasg Carreg Gwalch a Chyngor Llyfrau Cymru am roi'r cyfle i mi ddatblygu'r syniad cychwynnol.

**Unrhyw gyfrinachau eraill yr hoffech eu rhannu â phlant Cymru?**
Dwi wedi hedfan hofrenydd a chael reid ar gefn eliffant!




**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Ym Mangor.

**Ble cawsoch chi eich addysg?**
Ysgol Gynradd y Garnedd ac yna Ysgol Uwchradd Tryfan. Gradd mewn Astudiaethau Theatr ym Mhrifysgol Aberystwyth cyn astudio yn y Coleg Ffilm Ewropeaidd yn Nenmarc am flwyddyn. Yn nes ymlaen, dyna ddilyn fy niddordeb yn y trywydd gweledol trwy gwblhau gradd Meistr mewn Cynllunio ar gyfer Perfformio yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Roedd dyddiau'r ysgol yn rhai hapus lle'r oedd creadigrwydd yn cael ei annog. Ro'n i wrth fy modd yn cystadlu mewn eisteddfodau gyda gwaith grŵp, ysgrifennu neu gelf a chrefft yn enwedig. Doedd gorfod dysgu Mathemateg a'r Gwyddorau ddim wrth fodd fy nghalon!

**Pa lyfr oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Anodd dewis. Ro'n i'n hoff o ymroi i gyfresi gan awduron fel Judy Blume, Gwenno Hywyn ac Enid Blyton.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Mae byd natur yn ysgogiad cyson, yn ogystal â sylwi ar ddatblygiad ein dwy ferch fach, Eos ac Olwen.

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Eto, mae byd natur yn wir sbardun creadigol. Dwi'n sylwi y bydd syniadau yn aml yn dod pan fydda i ar gefn fy meic. Stopio wedyn sydd raid i nodi'r syniadau, cyn i mi eu hanghofio!

**Oes gennych chi gyngor i rywun sydd eisiau cyhoeddi llyfr?**
Dilynwch eich diddordeb a'ch diléit wrth greu'r gwaith. Pan ddaw syniadau, mae'n werth eu nodi yn o handi cyn iddyn nhw fynd yn angof.

**Oes gennych chi un peth rydych yn ei drysori'n fwy na dim arall?**
Ffotograffau o deulu a ffrindiau ar hyd y blynyddoedd.

**Sut deimlad oedd clywed eich bod wedi ennill Gwobr Tir na n-Og?**
Ro'n i wrth fy modd! Mae ennill Gwobr Tir na n-Og yn gymaint o anrhydedd ac yn hwb aruthrol i mi'n greadigol. Gan mai dyma fy llyfr cyntaf i blant, mae'n gadarnhad fy mod i ar y trywydd iawn wrth greu'r math yma o gyfrolau. Hoffwn ddal ar y cyfle i ddiolch i fy nheulu am eu holl gefnogaeth, ac i Wasg Carreg Gwalch a Chyngor Llyfrau Cymru am roi'r cyfle i mi ddatblygu'r syniad cychwynnol.

**Unrhyw gyfrinachau eraill yr hoffech eu rhannu â phlant Cymru?**
Dwi wedi hedfan hofrenydd a chael reid ar gefn eliffant!

